

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</b>	<b>EXTRAORDINARY MEETING OF THE DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE</b>
<b>DYDD MAWRTH, 19 HYDREF 2021 am 10.30 o'r gloch</b>	<b>TUESDAY, 19 OCTOBER 2021 at 10.30 am</b>
<b>CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)</b>	<b>VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Shirley Cooke 01248 752514 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts

### **Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

### **Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J Arwel Roberts

### **Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021.

### 3 **ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL** (Tudalennau 3 - 4)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.

**CYFARFOD ARBENNIG O'R  
PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021**

- YN BRESENNOL:** Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)  
Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Vaughan Hughes,  
Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees
- WRTH LAW:** Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd  
Swyddog Pwyllgor (SC)
- YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Dafydd Roberts
- 

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**2. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir:-

- 16 Mawrth 2021
- 18 Mai 2021

**3. DATGANIAD AMRYWIAETH**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi bod yn rhoi sylw i amrywiaeth mewn llywodraeth leol ac wedi cytuno i annog pob Cyngor i fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth fel rhan o'r ymrwymiad gan awdurdodau lleol i hyrwyddo amrywiaeth, cyn etholiadau 2022.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd bod gweithgor wedi'i sefydlu er mwyn casglu tystiolaeth am dangynrychiolaeth o fewn democratiaeth. Cyflwynodd y grŵp ei ganfyddiadau i CLILC yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn cydnabod fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cael eu hannog i sefyll ac mae ymgyrch cenedlaethol wedi'i gynllunio er mwyn hyrwyddo hyn.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd fod y Cyngor yn cefnogi'r Datganiad Amrywiaeth, sy'n gyson â nodau strategol yr Awdurdod i adlewyrchu'r gymuned leol. Nodwyd fod y Cyngor yn gobeithio cynyddu nifer y merched, pobl ifanc, pobl anabl a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n sefyll yn yr etholiad.

Yn dilyn cyfarfod Cyngor y CLILC ym mis Mawrth eleni, gofynnir i Gynghorau lleol fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth a pharatoi cynllun gweithredu.

Nododd y Pwyllgor nad yw'r lwfansau a delir i Aelodau Etholedig yn ddigonol er mwyn annog pobl ifanc a'r rhai hynny sydd o oed gwaith i sefyll yn yr etholiad. Bu Aelodau hefyd bwysleisio pwysigrwydd annog pobl o wahanol oedrannau, cefndiroedd a lefelau profiad i sefyll yn yr etholiad.

Gofynnodd Aelod am i'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw, mewn perthynas â lwfansau Aelodau, i gael eu crybwyll pan fydd y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn. Nodwyd y bydd cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd er mwyn cefnogi'r Datganiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Argymhell bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Datganiad Amrywiaeth drafft yn ei gyfarfod mis Medi, a**
- **Dirprwyo hawl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd gytuno cynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad yn ei gyfarfod nesaf.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 pm

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES  
CADEIRYDD**

<b>CYNGOR SIR YNYS MON</b>	
<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</b>
<b>DYDDIAD:</b>	19/10/2021
<b>TEITL YR ADRODDIAD :</b>	<b>Adolygiad o Etholaethau Seneddol</b>
<b>ADRODDIAD GAN :</b>	<b>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>Huw Jones</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD :</b>	<b>Adrodd ar yr argymhellion</b>

## 1.0 Rhagarweiniad

- 1.1 Yn gynharach eleni cyhoeddodd Comisiwn Ffiniau i Gymru dechrau'r broses adolygiad 2023 o etholaethau seneddol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986. Bellach fe gyhoeddwyd cynigion cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 3 Tachwedd.

Ar hyn o bryd mae 40 etholaeth seneddol yng Nghymru ac mae'r cynigion yn awgrymu gostwng hyn i 32 etholaeth. Nid oes newid etholaeth i Ynys Môn ac argymhelliad i newid enw'r etholaeth. Mae copi o adroddiad y Comisiwn Ffiniau i'w weld yn linc yma: [https://comffin-cymru.gov.uk/adolygiadau/09-21/arolwg-seneddol-2023-cynigion-cychwynnol?\\_ga=2.67986324.486883237.1633682094-1323517810.1633682094](https://comffin-cymru.gov.uk/adolygiadau/09-21/arolwg-seneddol-2023-cynigion-cychwynnol?_ga=2.67986324.486883237.1633682094-1323517810.1633682094)

Mi fydd Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor wedi cyflwyno achos dros gadw etholaeth Ynys Môn yn 2017 fel rhan o'r adolygiad diwethaf.

## 2.0 Argymhelliad

- 2.1 Croesawu nad oes unrhyw newidiadau i etholaeth Ynys Môn fel y nodir yn yr ymgynghoriad ac argymhell hyn i'r Cyngor Sir.

**Huw Jones**  
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**  
**06/10/2021**

This page is intentionally left blank